18 Awst 2022

Annwyl Bennaeth y Ganolfan

Diwrnod Canlyniadau UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau

Hoffwn ddiolch o galon i chi a'ch cydweithwyr am eich holl waith caled wrth gyrraedd diwrnod canlyniadau eleni.

Rydyn ni wedi gwneud sawl penderfyniad i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu trin mor deg â phosibl yn ystod y flwyddyn unigryw hon – mae addasiadau wedi'u gwneud i'r gofynion asesu ac mae dull hael wedi'i ddefnyddio ar gyfer graddio.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i longyfarch dysgwyr ar eu dyfalbarhad a'u penderfyniad i weithio'n galed ac i lwyddo ac rwy'n dymuno'n dda iddyn nhw yn eu camau nesaf.

Gwybodaeth am y canlyniadau

Heddiw rydyn ni wedi cyhoeddi'r canlynol:

1. Arolwg o ganlyniadau cyfres arholiadau 2022
2. Trosolwg o gyfres arholiadau haf 2022 ar gyfer cymwysterau galwedigaethol
3. Esboniwr canlyniadau
4. Ffeithlun Safon Uwch
5. Ffeithlun UG
6. Stori newyddion

Ddydd Iau, 25 Awst am 9.30am bydd canlyniadau TGAU a'r Dystysgrif Her Sgiliau'n cael eu cyhoeddi a byddwn ni'n e-bostio'r trosolwg, yr esboniwr canlyniadau a'r ffeithluniau ar gyfer y cymwysterau hyn i chi bryd hynny.

Adborth ar y gyfres

Yr haf yma, fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydyn ni wedi gwahodd dysgwyr, athrawon, darlithwyr, ac unrhyw un sydd â diddordeb yn yr arholiadau i rannu eu barn; ac mae llawer iawn ohonyn nhw wedi gwneud hynny. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi dadansoddiad pellach o'r adborth.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Diolch am y gefnogaeth rydych chi wedi ei roi i ddysgwyr. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi yn 2022-2023.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr